S4/C

Cofrestr Rhoddion Aelodau Awdurdod S4C
Canllawiau derbyn rhoddion a lletygarwch

Medi 2009

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Awdurdod S4C (yr “Awdurdod”) wedi mabwysiadu Cofrestr Rhoddion (y “Gofrestr”) er mwyn sicrhau bod unrhyw roddion neu letygarwch a dderbynir gan Aelodau’r Awdurdod mewn perthynas â’u dyletswyddau i Awdurdod S4C yn cael eu cofnodi’n glir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro mewn buddiannau yn gallu digwydd.

1.2 O dro i dro gall Aelodau gael cynnig rhoddion neu letygarwch wrth gyflawni eu dyletswyddau neu gyfrifoldebau ar ran yr Awdurdod. Pwrpas y canllawiau hyn (y “Canllawiau”) yw nodi sut y dylid delio gyda chynigion o'r fath.

1.3 Yr egwyddor sylfaenol yw y dylid ystyried addasrwydd derbyn unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch yn ofalus. Dyletswydd gyntaf Aelodau yw sicrhau nad oes gwrthdaro mewn buddiannau wrth gyflawni eu dyletswyddau. Dylai Aelodau sy'n cael cynnig rhoddion neu letygarwch ystyried hefyd sut y byddai'r cynnig yn cael ei ddehongli gan aelodau'r cyhoedd. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid gofyn am gyngor, a dylai Aelodau gofio bob amser bod angen bod yn agored, tryloyw a didwyll ynglŷn â phob cynnig o'r fath.

1.4 Mae'r Canllawiau hyn yn ychwanegol i Gôd Ymarfer Aelodau’r Awdurdod sy'n dynodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran yr Awdurdod. Disgwylir i bob Aelod i fod yn hyddysg yn narpariaethau’r Côd Ymarfer a’r Canllawiau hyn.

1.5 Bydd yr Awdurdod yn adolygu’r Canllawiau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw’n addas ar gyfer diogelu buddiannau’r Awdurdod a sicrhau bod system effeithiol o gofnodi rhoddion a lletygarwch i Aelodau yn cael ei gweithredu.

2. Rhoddion

2.1 Wrth gyflawni eu dyletswyddau neu eu cyfrifoldebau ar ran yr Awdurdod, ni ddylai Aelodau dderbyn rhoddion personol sylweddol oddi wrth gontractwyr na chyflenwyr allanol. Ystyrir ei bod yn rhesymol fodd bynnag i dderbyn cofroddion bychain, heb orfod cofrestru’r rhoddion hynny. Gall enghreifftiau o roddion sy'n dderbyniol gynnwys mygiau, calendrau, pin ysgrifennu neu ddyddiaduron a all gynnwys enw neu logo'r rhoddwr arnynt.

2.2 Dylai'r Aelodau gofnodi pob rhodd a dderbyniwyd yn y Gofrestr a gedwir gan Ysgrifennydd yr Awdurdod cyn gynted ag sy’n ymarferol ar ôl derbyn y rhodd.

2.3 Pan dderbynnir unrhyw rodd (waeth beth fo'i werth ariannol) dylai’r Aelod sy’n derbyn y rhodd esbonio wrth y rhoddwr na fydd ei dderbyn yn rhoi unrhyw fantais i'r rhoddwr yn ei ymwneud â'r Awdurdod.

2.4 Dylid gwrthod a dychwelyd unrhyw roddion amhriodol ynghyd ag eglurhad cwrtais ond pendant yn esbonio pam nad oes modd derbyn y rhodd. Dylid

hysbysu'r Ysgrifennydd o unrhyw rodd a wrthodwyd cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl gwrthod y rhodd.

2.5 Ac eithrio cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnwyd gan neu ar ran yr Awdurdod, dylai Aelodau osgoi gwneud defnydd o wasanaeth contractwyr a gyflogir gan neu ar ran yr Awdurdod ar gyfer derbyn cyflenwadau o nwyddau, llafur neu offer am brisiau gostyngol. Nid yw'r amod hwn, fodd bynnag yn rhwystro Aelodau rhag derbyn gwasanaethau a nwyddau am bris gostyngol os yw'r prisiau gostyngol rheini ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd yn gyffredinol.

3. Lletygarwch

3.1 Dylai unrhyw Aelod sy'n cael cynnig lletygarwch yn sgil eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau ar ran yr Awdurdod roi ystyriaeth ofalus i'r holl amgylchiadau sydd ynghlwm i bob cynnig. Bydd maint a gwerth ariannol pob cynnig yn berthnasol, ynghyd â pha mor aml mae'n digwydd a'r person sy'n gwneud y cynnig. Byddai'n amhriodol, er enghraifft, ac eithrio mewn achosion prin iawn, i dderbyn cynnig cwmni, partneriaeth, grŵp o unigolion neu unigolyn, pan fo'r cynigydd yn ceisio am gytundeb neu fantais ariannol neu fel arall gan yr Awdurdod.

3.2 Diffinnir lletygarwch fel unrhyw beth tu hwnt i gynnig diodydd di-alcohol a lluniaeth ysgafn fyddai'n cael ei ystyried fel cyfeillachu cyffredin rhesymol. Dylai'r Aelodau osgoi sefyllfaoedd o letygarwch lle mai'r Aelod yw'r unig un a wahoddwyd i achlysur. Dim ond pan fo gwahoddiadau i fynychu achlysuron cymdeithasol neu chwaraeon yn rhan annatod o fywyd y gymdeithas neu lle mae'n ddisgwyliadwy i weld cynrychiolaeth o'r Awdurdod y dylid derbyn cynigion o'r fath.

3.3 Dylai'r Aelodau gofnodi pob lletygarwch a dderbyniwyd yn y Gofrestr a gedwir gan Ysgrifennydd yr Awdurdod cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl derbyn y lletygarwch.

3.4 Wrth dderbyn lletygarwch awdurdodedig dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o amseriad y lletygarwch mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'r Awdurdod yn eu gwneud sy'n effeithio ar y rhai sy'n darparu'r lletygarwch.

3.5 Bydd yn dderbyniol i Aelodau dderbyn lletygarwch drwy fynychu cynadleddau, seminarau a chyrsiau perthnasol lle mae'n eglur bod y lletygarwch yn un corfforaethol yn hytrach na phersonol, lle mae Cadeirydd yr Awdurdod yn cydsynio ymlaen llaw a lle mae Cadeirydd yr Awdurdod yn fodlon nad oes bygythiad i unrhyw benderfyniadau ynglŷn â phryniannau gan neu ar ran yr Awdurdod.

3.7 Pan fo rhaid gwrthod cynnig o letygarwch, dylid hysbysu'r cynigydd yn gwrtais ond yn bendant am y gweithdrefnau a safonau sy'n bodoli o fewn yr Awdurdod. Dylid hysbysu'r Ysgrifennydd o unrhyw gynnig o letygarwch a wrthodwyd cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl ei wrthod.

4. Y Gofrestr

4.1 Bydd y Gofrestr y bydd yr Ysgrifennydd yn ei chadw dan amodau'r Canllawiau hyn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

5. Darparu Cyngor

5.1 Mewn achosion lle mae angen cyngor am werth neu briodoldeb derbyn rhoddion neu letygarwch, bydd cyngor ar gael i'r Aelodau oddi wrth Ysgrifennydd yr Awdurdod.

Awdurdod S4C
Medi 2009